SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Deintyddol Kieron Hastings, Abertyleri

19 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3246-8


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 3

4. Crynodeb .......... 4

5. Canfyddiadau .......... 5

Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .......... 8

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 15

6. Y Camau Nesaf .......... 17

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Kieron Hastings, 24 Stryd Y Brenin, Abertyleri yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 19 Ionawr 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Kieron Hastings yn darparu gwasanaethau yn ardal Abertyleri ym Mlaenau Gwent. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys un prif ddeintydd, un rheolwr practis (sydd hefyd yn gweithio fel nyrs ddeintyddol), un nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol. Mae tua 50% o'r cleifion yn cael eu trin yn breifat, ac mae tua 50% yn gleifion y GIG.

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Kieron Hastings yn bodloni’r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn deall bod Practis Deintyddol Kieron Hastings yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau (Diwygiad) 2011.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n ddiogel i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella cofnodion y cleifion.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried trefniadau ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid ac arfarniadau blynyddol i bob aelod o staff, yn cynnwys y prif ddeintydd, i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a ddarperir yn cael eu monitro'n ffurfiol.

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac roedd yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried y trefniadau i sicrhau bod data cleifion sy'n cael ei gadw ar bapur yn ddiogel. Dylid cynnal asesiad risg tân hefyd, a dylid cael gwared ar unrhyw arwyddion camarweiniol.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

***Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.***

Cwblhawyd dau ddeg un o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom hefyd siarad â thri chlaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob claf eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis, a'u bod yn cael croeso cynnes gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oediad o ran gweld y deintydd. Dywedodd y cleifion a oedd wedi profi oediad, yn ôl pob sôn, mai dim ond unwaith neu'n achlysurol yr oedd hynny wedi digwydd.

Roedd sampl o sylwadau gan y cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r ddeintyddfa bob amser yn lân ac mae pawb yn gwrtais, yn brydlon ac yn effeithlon iawn. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn."*
>
> *"Rydw i bob amser wedi cael croeso cynnes a thriniaeth ardderchog gan y deintydd."*
>
> *"Effeithlon iawn a staff cyfeillgar."*
>
> *"Bodlon iawn."*
>
> *"Fel arfer rydw i'n dod mewn argyfwng yn unig, ond rydw i wastad wedi cael fy nhrin fel claf ac mae croeso i mi gan y staff."*
>
> *"Rydw i a'm teulu wedi bod yn dod i'r ddeintyddfa ers blynyddoedd mawr ac rydyn ni'n eitha' cyfforddus yma."*

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu gweld yn gyflym, lle bo angen. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom ddau glaf a ddaeth i'r practis heb apwyntiad a gofyn i gael eu gweld mewn argyfwng. Gwnaeth y staff fodloni'r gofynion hyn drwy weld y cleifion y diwrnod hwnnw neu'r bore canlynol. Esboniodd rheolwr y practis a'r prif ddeintydd eu bod yn ceisio gweld cleifion sydd mewn poen ac nad ydynt yn gyfforddus cyn gynted â phosibl. Dangoswyd hyn yn y sylwad canlynol gan un claf:

> *“Rydw i bob amser yn gallu gweld y deintydd fel claf argyfwng ar yr un diwrnod os ydw i'n ffonio'n gynnar yn y bore."*

Roedd y tîm o staff yn sefydledig iawn ac maent wedi gweithio i'r practis ers sawl blwyddyn. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gyfarwydd â'r staff ac yn derbyn parhad gofal gan eu bod yn gallu gweld yr un deintydd.

Roedd gan staff a chleifion fynediad at wybodaeth berthnasol am y gwasanaeth deintyddol ac roedd ffolder yn cynnwys taflenni gwybodaeth y practis ar gael ar ddesg y dderbynfa. Nid oedd gan y practis wefan, ond mae gwybodaeth sylfaenol am y practis, yn cynnwys manylion cyswllt ac oriau agor, ar gael trwy wefan Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau'. Roedd arwydd y tu allan i’r practis yn nodi'r oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau'. Gwnaethom ffonio'r practis a chanfod bod rhif cyswllt mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth; dim ond un claf a ddywedodd *"Nid bob amser".*

Gwelsom rywfaint o wybodaeth am hybu iechyd yn ystafell aros y cleifion/dderbynfa yn hysbysu cleifion am fwyta'n iach a gofal dannedd, ond prin oedd y wybodaeth am atal canser y geg. Dywedodd staff wrthym fod gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu yn cael ei rhoi i gleifion, ond nid oedd taflenni ar gael ar ddiwrnod yr ymweliad.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth bellach i gleifion am hybu iechyd, yn cynnwys atal canser y geg.***

Roedd gan y practis boster uwchben y dderbynfa i annog cleifion i ddarparu awgrymiadau ar welliannau y gallai'r practis eu gwneud. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system i gasglu barn y cleifion yn rheolaidd (h.y. holiadur cleifion neu flwch awgrymiadau) a gweithredu arni fel ffordd o asesu ansawdd ei wasanaeth.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.***

Gwnaethom arolygu cofnod y cwynion ar lafar yn y practis a oedd yn dangos bod nifer bach o gleifion yn anfodlon ar y driniaeth a ddarperir. Roedd gan y practis bolisi cwyno a phoster wedi'u harddangos y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa. Gwnaethom sylwi bod maint ysgrifen y poster hwn yn fach iawn ac roedd yn anodd ei ddarllen wrth sefyll yn y dderbynfa. Symudodd rheolwr y

practis y poster hwn ar ddiwrnod yr arolygiad i helpu i sicrhau ei fod yn fwy amlwg i gleifion a chytuno cynyddu maint yr ysgrifen. Dywedodd deg allan o ddau ddeg pedwar o gleifion eu bod yn ansicr am sut i wneud cwyn.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod y cleifion yn gallu gweld y polisi cwyno, yn enwedig gan ei gwneud yn haws i'w weld yn y man aros.***

Canfuwyd gennym fod y weithdrefn gwyno'n cydymffurfio â threfniadau yng ngweithdrefn gwyno gleifion y GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella[2]' ac yn rhoi rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe baent am wneud cwyn. Roedd manylion AGIC ar goll yn y polisi i gleifion preifat. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Mae hefyd angen i'r polisi fod yn gliriach ynghylch y broses a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw'n dibynnu a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis gynnwys manylion am AGIC yn y polisi cwyno i gleifion preifat. Dylai'r polisi cwyno fanylu'n glir y weithdrefn a'r sefydliadau i gysylltu â nhw'n dibynnu a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.***

Gwnaethom awgrymu hefyd bod y practis yn ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gwnaethom sylwi nad oedd nifer o'r arwyddion, hysbysiadau a gwybodaeth i gleifion o gwmpas y practis yn defnyddio ffontiau mwy o faint ac nad oeddent ar gael mewn ieithoedd eraill, yn cynnwys y Gymraeg.

[2] 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n ddiogel i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella cofnodion y cleifion.**

### Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y ddeintyddfa ar y llawr daear oedd yn cael ei defnyddio ac roedd y rhain yn cynnwys offer perthnasol er diogelwch y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod rhwygiadau yng nghlustogwaith y gadair ddeintyddol a oedd yn golygu nad oedd modd o'i glanhau'n effeithiol i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod y gadair ddeintyddol yn cael ei gwella i sicrhau y gellir ei diheintio'n effeithiol.***

Gwnaethom hefyd awgrymu bod y practis yn cael gwared ar offer nad yw'n cael ei ddefnyddio yn y man triniaeth glinigol er mwyn i'r dreir gael eu glanhau'n effeithiol. Gwnaethom sylwi nad oedd offer y cyfrifiadur (bysellfwrdd a llygoden) yn y man triniaeth glinigol yn cael ei amddiffyn rhag heintio (h.y. defnyddio caead plastig y gellir ei dynnu a'i lanhau'n hawdd) i atal croes-heintio.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer cyfrifiadurol sy'n cael ei ddefnyddio yn y man triniaeth glinigol yn gallu cael ei lanhau'n effeithiol i leihau'r perygl o groes heintio.***

Canfuwyd gennym fod y practis yn defnyddio math o offer (bandiau matrics ar gyfer dal deunydd ffeilio'n ddiogel) sy'n anodd eu cadw'n lân ac sy'n creu perygl o anaf a achosir gan gyfarpar miniog i'r staff wrth newid y bandiau metel. Argymhellir gan y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[3] bod yr offer hwn yn cael ei ddisodli gan fandiau matrics untro. Er inni weld bod y practis yn cadw'r offer hwn yn lân, gwnaethom argymell y dylai ystyried newid i fandiau matrics untro.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ystyried disodli'r bandiau matrics gan fathau untro, i leihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn staff rhag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog oherwydd yr anawsterau wrth ddefnyddio offer o'r math.***

---

[3]Cyfres o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir i godi ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal cynradd.

**Diheintio offer a Storio**

Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau ac offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer deintyddol yn y practis yn bodloni'r safonau da ar gyfer dadheintio. Dywedodd staff wrthym fod y lleoliad yn cael ei lanhau yn ystod amserau penodol o'r dydd, ac roedd offer a oedd yn aros i gael ei lanhau yn cael ei gadw mewn blwch. Gwnaethom argymell y dylid cadw'r offer sy'n aros i gael ei ddadheintio mewn amgylchedd gwlyb i helpu i'w gwneud hi'n haws i'w lanhau yn unol â chanllawiau'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

***Argymhelliad***

***Dylid cadw offer sy'n aros i gael ei lanhau mewn amgylchedd gwlyb i atal halogion rhag sychu ar yr offer a'i gwneud yn fwy anodd ei lanhau.***

Roedd gan y practis ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol ac roedd gweithdrefnau addas ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd sinciau golchi dwylo pwrpasol ac eitemau untro ar gael i helpu i reoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd peiriannau sebon ar gael ar gyfer y sinciau hyn.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob cyfleuster golchi dwylo addas, yn cynnwys peiriannau sebon ar gael i atal croes-heintio.***

Gwnaethom sylwi nad yw'r goleuadau yn yr ystafell ddadheintio'n ddigon golau i ganiatáu i staff wirio a yw'r offer yn lân, sy'n ofynnol fel rhan o'r weithdrefn lanhau.

***Argymhellion***

***Dylai'r practis sicrhau bod goleuadau disglair addas ar gael er mwyn arolygu'r offer yn ystod y broses ddadheintio.***

Canfuwyd gennym nad oedd aelodau o staff yn amddiffyn eu llygaid yn briodol wrth ddadheintio offer. Gwnaethom gynghori hefyd y dylai'r practis ddarparu cyfleusterau golchi llygaid i gynorthwyo ag unrhyw ddamweiniau posibl.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn gwisgo'r holl gyfarpar diogelu personol priodol, yn cynnwys cyfarpar i amddiffyn eu llygaid, wrth ddadheintio offer.***

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ond cafodd yr archwiliad diwethaf ei gynnal dros flwyddyn yn ôl. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid cynnal archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn. O ganlyniad i'r archwiliadau hyn, dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella.***

**Gwaredu ar wastraff**

Ar y cyfan, roedd gwastraff yn cael ei reoli, ei gadw a'i waredu yn briodol yn y practis ac roedd contract gwaredu ar wastraff clinigol cyfredol ar waith. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod yn gwaredu ar fodelau deintyddol (argraffiadau dannedd) gyda'r gwastraff clinigol. Dylid gwaredu ar yr eitemau hyn ar wahân mewn cynwysyddion priodol.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod modelau/argraffiadau deintyddol yn cael eu cadw a'u gwaredu mewn cynwysyddion gwastraff priodol.***

**Cyfarpar radiograffeg**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofi ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom hefyd fod y deintydd wedi derbyn hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar radiograffeg mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen diweddaru hyfforddiant radiograffeg staff.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod staff clinigol yn derbyn hyfforddiant priodol mewn radiograffeg.***

**Cadw cyffuriau ac offer brys**

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth priodol rhag ofn y byddai claf mewn argyfwng (cwympiad) yn y practis. Roedd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cyfredol am sut i ddelio ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod system addas ar waith i newid meddyginiaeth sydd wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben, ac roedd cyffuriau'n cael eu cadw a'u trefnu'n glir. Mae hyn yn osgoi unrhyw oediad wrth drin cleifion mewn argyfwng. Gwnaethom awgrymu y dylid cofnodi gwiriadau batri i'r diffibriliwr (a ddefnyddir mewn digwyddiadau cardiaidd lle mae bywyd yn y fantol) ar yr un pryd â'r offer arall, i sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Cytunodd y practis i gofnodi'r gwiriadau hyn.

**Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom arolygu sampl o chwe chofnod cleifion electronig yn fanwl a chanfod bod angen eu gwella i sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei gofnodi'n

briodol. Yn seiliedig ar y cofnodion y gwnaethom eu samplu, canfuwyd gennym fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd gan y practis system gadarn ar gyfer derbyn cydsyniad gwybodus gan gleifion. Nid oedd y cynlluniau triniaeth a welsom yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau er mwyn i gleifion eu hystyried a gwneud penderfyniad gwybodus.
- Nid oedd opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion.
- Roedd gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cynnal, ond roedd diffyg manylion am gyflyrau meddygol. Canfuwyd gennym nad oeddent yn cael eu cydlofnodi'n gyson gan y deintydd ac nad oedd diweddariadau bob amser yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.
- Nid oedd y broses o ddarparu gwybodaeth/cyngor am roi'r gorau i ysmygu i gleifion sy'n ysmygu'n cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.
- Roedd y cofnodion a welsom yn aneglur o ran p'un a oedd prawf sgrinio canser y geg llawn wedi cael ei gynnal.
- Nid oedd amlder ail-alw cleifion bob amser yn cael ei gofnodi, sy'n golygu ei bod yn aneglur a oedd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cael eu dilyn.
- Cofnodwyd archwiliadau periodontal sylfaenol (meinwe feddal) ond nid oedd tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn gweithredu'r rhain yn cael ei dogfennu'n gyson. Ni chanfuom dystiolaeth gyson bod cleifion yn cael eu hysbysu o ganlyniadau'r archwiliadau hyn. Mae hyn yn golygu efallai nad ydynt wedi dweud wrth gleifion am yr hyn y gwnaeth yr archwiliad ei ddangos am iechyd eu dannedd/deintgig.
- Nid oedd pelydrau-x cleifion a gymerwyd yn cael eu cyfiawnhau'n gyson, nac yn cael eu graddio ar gyfer ansawdd ac nid oedd canfyddiadau clinigol y pelydrau-x hyn bob amser yn cael eu nodi. Dylai pob pelydr-x a gymerir gael ei gyfiawnhau'n glinigol a'i adrodd i sicrhau y cesglir yr holl wybodaeth ddefnyddiol a'i chadw ar gyfer ei defnyddio yn y dyfodol. Argymhellir graddio pob pelydr-x fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd.

***Argymhelliad***

***Mae angen gwella cofnodion y cleifion yn gyffredinol i sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cofnodi'n briodol a bod cofnodion y cleifion wedi'u cwblhau ac yn gywir. Yn benodol, mae angen gwella'r dull o dderbyn a chofnodi cydsyniad gwybodus, opsiynau triniaeth, hanes meddygol, rhoi'r gorau i ysmygu, sgrinio canser y geg, amlder ail-alw, archwiliadau periodontal sylfaenol a radiograffau.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad clinigol gan gymheiriaid ac arfarniadau staff i'r holl staff, yn cynnwys y prif ddeintydd, i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn cael eu monitro'n ffurfiol.**

Mae tua 50% o'r cleifion yn y practis yn cael eu trin yn breifat, ac mae tua 50% yn gleifion y GIG. Mae'r practis yn cael ei redeg gan reolwr practis profiadol ac roedd tîm o staff wedi'i sefydlu'n dda a fu’n gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd.

Dywedodd staff wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi. Dywedodd staff wrthym hefyd y byddent yn hapus i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â rheolwr y practis.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt yswiriant indemniad. Roedd tystysgrif sy'n cadarnhau bod y deintydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn cael ei harddangos yn y dderbynfa. Gwnaethom argymell bod y practis yn ei gwneud yn haws i'r cleifion weld y dystysgrif hon trwy ei symud yn agosach at y man lle mae'r cleifion yn aros ynddo fel arfer. Aeth rheolwr y practis i'r afael â mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, a thystysgrifau cynnal a chadw. Esboniodd rheolwr y practis eu bod wrthi'n datblygu llawlyfr y practis a fyddai'n cynnwys adolygiad o weithdrefnau'r practis hefyd. Canfuwyd gennym fod gan y rhan fwyaf o'r gweithdrefnau a'r polisïau ddyddiadau adolygu i ddangos eu bod yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd dyddiadau adolygu ar goll yn rhai o'r polisïau. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis y bydd hyn yn cael ei gywiro yn llawlyfr newydd y practis.

### *Argymhelliad*

***Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol.***

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi cael eu cefnogi trwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn Amddiffyn Plant. Roedd ffolder a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Amddiffyn Oedolion ac mae hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed ar y gweill ar gyfer rheolwr y practis. Gwnaethom gynghori bod pob aelod o staff perthnasol yn meddu ar hyfforddiant mewn Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin.***

Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynnal arfarniadau blynyddol staff yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arfarniad wedi cael ei gynnal ar gyfer y prif ddeintydd. Roedd y prif ddeintydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau archwilio gan gymheiriaid yn y gorffennol, ond nid oedd trefniadau parhaus ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn y practis. Mae hyn yn golygu nad oedd ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn cael ei fonitro'n barhaus.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ystyried trefniadau ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid a chynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o staff, yn cynnwys y prif ddeintydd.***

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal tuag unwaith bob dau fis. Gwelsom gofnodion dau o'r cyfarfodydd hyn, ond roedd diffyg manylion am y pynciau a drafodwyd. Gwnaethom argymell bod y practis yn gwella cofnodion y cyfarfodydd staff, er mwyn gweld cofnodion clir o'r trafodaethau. Rhoddwyd enghraifft inni o bethau a ddysgwyd yn y cyfarfodydd hyn, lle trafodwyd y weithdrefn gwyno yng ngoleuni canllaw 'Gweithio i Wella'. O ganlyniad, roedd y practis wedi argraffu taflenni 'Gweithio i Wella' ac maent ar gael i'w rhoi i gleifion y GIG, pe baent yn dymuno gwneud cwyn.

Roedd gan y practis raglen gynefino ar gyfer staff newydd a staff dros dro, er bod yr aelodau o staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd wedi bod yno ers sawl blwyddyn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad yw'r practis wedi defnyddio staff asiantaeth.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion imiwnedd hepatitis B y staff. Mae cofnodion ar gyfer y deintydd yn argymell cael pigiad atgyfnerthol ar ôl pum mlynedd, sydd bellach yn hen. Hefyd, roedd y statws imiwnedd ar gyfer rheolwr y practis (a oedd hefyd yn gweithio fel nyrs ddeintyddol) yn aneglur.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed.***

Roedd gan y practis drefniad ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol i'r staff trwy'r bwrdd iechyd. Roedd hefyd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion heb eu datrys hyd yn hyn ac nad oedd y practis wedi derbyn cwyn ysgrifenedig. Gwelsom gofnod o grynodeb cwynion ar lafar a dderbyniwyd yn y practis. Cafodd cofnodion cwyno eu cadw'n

briodol ac roedd llythyrau gohebiaeth ynghylch cwynion ar gael ar ffurf electronig. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn defnyddio'r daflen cofnodi cwynion sydd ar gael (fel y cynhwysir yn y polisi cwyno) i ddogfennu'r camau gweithredu a gymerwyd yn fanylach. Er i'r cleifion ddweud wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis, gallem weld thema gyffredin yn nifer bach y cwynion ar lafar a dderbyniwyd. Er enghraifft, roedd y cwynion hyn yn perthyn i nifer bach o gleifion a oedd yn anfodlon ar y driniaeth a ddarparwyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y deintydd yn ymwybodol o hyn.

O ystyried nifer yr argymelliadau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod mwy o drefniadau effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Canfuwyd gennym fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac mae'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer y cleifion i dderbyn triniaeth. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried y trefniadau i sicrhau bod data cleifion sy'n cael ei gadw ar bapur yn ddiogel. Dylid cynnal asesiad risg tân hefyd a chael gwared ar arwyddion camarweiniol.**

Lleolir y practis yng nghanol Abertyleri, sy'n agos at y brif ganolfan siopa. Mae gan y practis ddwy ddeintyddfa ar y llawr daear (nid yw un o'r deintyddfeydd yn cael ei defnyddio). Mae gan yr adeilad lawr cyntaf hefyd, lle bu deintyddfeydd gynt ond a ddefnyddir bellach  fel storfa. Lleolir yr ystafell aros/derbynfa ar y llawr daear. Mae parcio ar gael mewn meysydd parcio yng nghanol y dref sy'n agos at y practis ac mae hefyd lle cyfyngedig i barcio ar y stryd y tu allan i'r ddeintyddfa.

Lleolir y practis ar stryd gul ar fryn. O ganlyniad, mae mynediad at y ddeintyddfa'n gyfyngedig i bobl anabl oherwydd y llwybr troed cul a'r ddau ris serth i'r drws blaen. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod wedi asesu'r posibilrwydd o ddarparu ramp i gynorthwyo pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, oherwydd uchder y grisiau a'r llwybr troed y tu allan, roeddent yn teimlo y byddai ramp yn beryglus oherwydd byddai'n arwain yn uniongyrchol i'r ffordd.

Cawsom daith o amgylch yr adeilad a gwelsom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas yn y tu mewn a'r tu allan. Ni wnaethom gynnwys mannau storio ac ystafelloedd gwag sydd ar y llawr cyntaf yn yr arolygiad hwn.

Mae gan y practis dŷ bach staff/cleifion neillryw ar y llawr daear. Roedd hwn i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Gwelsom fod gan y tŷ bach arwydd hygyrch y tu allan, ond nid oedd ganddo ganllaw na chyfleusterau priodol i ganiatáu i gleifion ag anableddau ei ddefnyddio'n ddiogel. Tynnodd rheolwr y practis yr arwydd hwn i lawr ar ddiwrnod yr arolygiad.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw dŷ bach a neilltuir fel man hygyrch yn addas i'w ddefnyddio'n ddiogel.***

Roedd y man aros yn fan braf ac roedd o faint addas. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos yn swyddfa rheolwr y practis, ond dylai cleifion allu ei gweld. Gwnaethom sylwi hefyd bod rhestr prisiau ar gyfer cleifion preifat yn anodd ei gweld oherwydd ei bod y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa ac roedd maint yr ysgrifen yn fach.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod y cleifion yn gallu gweld gwybodaeth berthnasol, yn cynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr a rhestrau prisiau yn hawdd.***

Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir a’r diffoddwyr tân wedi'u harolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, gan fod yr adeilad wedi cael ei addasu, roedd arwyddion allanfeydd tân blaenorol ar gael o'r llawr cyntaf i'r drws sydd bellach wedi'i flocio. Er nad oedd y llawr cyntaf yn cael ei ddefnyddio yn aml gan staff, gallai rhywun sy'n defnyddio'r llawr cyntaf gael ei gamarwain gan arwyddion anghywir o bosibl, pe bai tân. Gwnaethom argymell bod y practis yn asesu'r llwybrau dianc rhag tân trwy'r adeilad ac yn sicrhau ei fod yn cael gwared ar unrhyw arwyddion camarweiniol.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis gynnal asesiad risg tân, yn cynnwys y llwybr dianc rhag tân ar y llawr cyntaf, a sicrhau ei fod yn cael gwared ar unrhyw arwyddion camarweiniol.***

Roedd y practis yn cadw cymysgedd o gofnodion cleifion electronig a chofnodion ar bapur. Er inni weld bod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch data electronig, roeddem o'r farn y gellid gwella'r ffordd mae'r practis yn cadw cofnodion papur. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cwpwrdd heb glo yn swyddfa rheolwr y practis. Dywedodd y practis wrthym fod y swyddfa ar glo pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Er bod hyn yn amddiffyn cofnodion i raddau, roeddem o'r farn y gellid gwella hyn gan gadw cofnodion papur mewn cwpwrdd ar gau sy'n gallu cael ei gloi i amddiffyn rhag difrod tân a mynediad heb ei awdurdodi.

***Argymhelliad***

***Dylai’r practis ystyried y trefniadau i sicrhau bod data cleifion sy'n cael ei gadw ar bapur yn ddiogel.***

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Kieron Hastings yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y ddeintyddfa, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwelliannau

## Practis: Practis Deintyddol Kieron Hastings

## Dyddiad yr Arolygiad: 19 Ionawr 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth bellach i gleifion am hybu iechyd, yn cynnwys atal canser y geg. | Poster Gwybodaeth Dim Smygu Cymru a thaflenni ar gael. Cyngor/atgyfeiriad yn cael ei gynnig os oes cydsyniad | T Phillips | O 26/01/2015 |
| 8 | Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. | Darparu blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros<br>Cynnal arolwg cleifion bob chwe mis | T Phillips<br>T Phillips | 01/04/2015<br>Arolwg nesaf 07/2015 |
| 8 | Dylai'r practis sicrhau bod y cleifion yn gallu gweld y polisi cwyno, yn enwedig gan sicrhau ei fod yn haws i'w weld yn y man aros. | Cynyddu maint y ffont a newid safle'r polisi i sicrhau bod cleifion yn gallu ei weld | T Phillips | 26/01/2015 |
| 8 | Dylai'r practis gynnwys manylion AGIC yn y polisi cwyno i gleifion preifat. Dylai'r polisi cwyno fanylu'n glir y weithdrefn a sefydliadau i gysylltu â nhw'n dibynnu a yw | Datganiad polisi, newid gwybodaeth i gleifion i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol | T Phillips | 26/01/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y gadair ddeintyddol yn cael ei gwella i sicrhau y gellir ei diheintio'n effeithiol. | Gofyn am wybodaeth ynghylch cadeiriau newydd sydd ar gael a'u prynu a'u gosod cyn gynted â phosibl | Kieron Hastings | Yn ystod 2015 |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer cyfrifiadurol sy'n cael ei ddefnyddio yn y man triniaeth glinigol yn gallu cael ei lanhau'n effeithiol i leihau'r perygl o groes-heintio. | Caead bysellfwrdd ar fan gwaith clinigol | Kieron Hastings | 26/01/2015 |
| 10 | Dylai'r practis ystyried disodli'r bandiau matrics gan fathau untro, i leihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn staff rhag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog oherwydd yr anawsterau wrth ddefnyddio offer o'r math. | Ymchwilio i gynhyrchion eraill sydd ar gael<br>Monitro a gwneud asesiadau risg o'r system matrics gyfredol | Kieron Hastings | 07/2015 |
| 10 | Dylid cadw offer sy'n aros i gael ei lanhau mewn amgylchedd gwlyb i atal halogion rhag sychu ar yr offer a'i gwneud yn fwy anodd ei lanhau. | Yn unol â chyngor hyfforddiant Croes-Heintio, dylid cadw swab gwe mewn cynhwysydd | Lynda Cooper | 20/01/2015 |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod pob cyfleuster golchi dwylo addas, yn cynnwys peiriannau | Gosod peiriannau sebon yn yr ystafell ddadheintio | Kieron Hastings | 12/02/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | sebon ar gael i atal croes-heintio. | | | |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod goleuadau disglair addas ar gael er mwyn arolygu'r offer yn ystod y broses ddadheintio. | Cynllunio i wella goleuadau | Kieron Hastings | O fewn 6 mis |
| 11 | Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn gwisgo'r holl gyfarpar diogelu personol priodol, yn cynnwys cyfarpar i amddiffyn eu llygaid, wrth ddadheintio offer. | Creu amod yng Nghytundeb Cyflogaeth Y Staff bod pob aelod o staff clinigol yn defnyddio’r cyfarpar diogelwch personol a ddarperir | Tracy Phillips | 05/15 |
| 11 | Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella. | Trefnu archwiliad ffurfiol fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus ag Addysg Ddeintyddol i Raddedigion. | Tracy Phillips | 03/2015 |
| 11 | Dylai'r practis sicrhau bod modelau/argraffiadau deintyddol yn cael eu cadw a'u gwaredu mewn cynwysyddion gwastraff priodol. | Cysylltu ag Initial Medical i ddiwygio Contract Gwastraff i gynnwys gwastraff gypswm | Tracy Phillips | 03/2015 |
| 12 | Dylai'r practis sicrhau bod staff clinigol yn derbyn hyfforddiant priodol mewn radiograffeg. | Diweddaru hyfforddiant Amddiffyn rhag Pelydredd<br>Mynychwyd cwrs gan bob aelod o staff perthnasol ar 30/01/2015 | Tracy Phillips | 30/01/2015 |
| 13 | Mae angen gwella cofnodion y cleifion yn gyffredinol i sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cofnodi'n briodol a bod cofnodion y cleifion wedi'u cwblhau ac yn | Mabwysiadu argymhellion y Tîm Arolygu.<br>Archwiliad mewn 3 mis | Kieron Hastings | 19/04/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gywir. Yn benodol, mae angen gwella derbyn a chofnodi cydsyniad gwybodus, opsiynau triniaeth, hanes meddygol, rhoi'r gorau i ysmygu, sgrinio canser y geg, amlder ail-alw, archwiliadau periodontal sylfaenol a radiograffau. | | | |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |
| 14 | Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol. | Adolygu polisïau cyfredol a'u diweddaru lle bo angen. Neilltuo diwrnod y mis yn benodol ar gyfer hyn. | Tracy Phillips | Adolygu 07/2015 |
| 15 | Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin. | Trefnu hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i bob aelod o staff. Diweddarwyd hyfforddiant Diogelu Plant yn 2014 | Tracy Phillips | 12/2015 |
| 15 | Dylai'r practis ystyried trefniadau ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid a chynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o staff, yn cynnwys y prif ddeintydd. | Dylai arfarniadau blynyddol gynnwys y prif ddeintydd | Tracy Phillips | 13/02/2015 |
| 16 | Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed. | Mae angen pigiadau atgyfnerthu hepatitis B ar unwaith ar gyfer dau aelod o staff ac yna mae angen profi eu himiwnedd mewn tri mis.<br>Mae angen pigiad atgyfnerthu hepatitis B ar drydydd aelod o staff clinigol ym mis Tachwedd | Tracy Phillips | 06/15 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | 2015. | | |
| | Ansawdd yr AmgylchedRd | | | |
| 17 | Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw dŷ bach a neilltuir fel man hygyrch yn addas i'w ddefnyddio'n ddiogel. | Diogel i'w ddefnyddio ond dylai'r practis ystyried newidiadau i'r tŷ bach i ganiatáu i ddefnyddwyr anabl ei ddefnyddio'n ddiogel. | Kieron Hastings | 01/2016 |
| 18 | Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth berthnasol, yn cynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr a rhestrau prisiau'n hawdd i'r cleifion eu gweld. | Mae'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno a'i gosod i'r cleifion ei gweld. | Tracy Phillips | 02/2015 |
| 18 | Dylai'r practis gynnal asesiad risg tân, yn cynnwys y llwybr dianc rhag tân ar y llawr cyntaf, a sicrhau ei fod yn cael gwared ar unrhyw arwyddion camarweiniol. | Mae'r practis wedi gwneud asesiad risg o'r llawr cyntaf ac mae arwyddion camarweiniol wedi cael eu hailosod. | Tracy Phillips a Kieron Hastings | 02/2015 |
| 18 | Dylai'r practis ystyried y trefniadau i sicrhau bod data cleifion sy'n cael ei gadw ar bapur yn cael ei amddiffyn a'i fod yn ddiogel. | Mae manylion pob claf yn cael eu trosglwyddo i ffurf ddigidol. Byddant yn cael gwared ar gofnodion hanesyddol yn briodol, h.y. ar ôl 11 mlynedd neu 25 oed. Dylid rhwygo'r holl ddata. | Kieron Hastings | 07/2016 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):** **[Tracy Phillips]...............................................................**

**Teitl:** **[Rheolwr y Practis]..........................................................**

**Llofnod:** **[Cyflwynwyd yn electronig]..............................................**

**Dyddiad:** **[12/02/2015]...................................................................**